Senedd Cymru
**Cysylltiadau Rhyngwladol**

# Adroddiad Ymweliad

## Ymweliad Traws-bwyllgor â Stuttgart

24-26 Chwefror 2025

Rhwng 24 a 26 Chwefror 2025, bu dirprwyaeth draws-bwyllgor o dan arweiniad y Dirprwy Lywydd ar ymweliad â Stuttgart, yr Almaen, fel rhan o ymweliad swyddogol cyntaf y Senedd â Landtag (Senedd Daleithiol) Baden-Württemberg.

Roedd y rhaglen yn y Landtag yn cynnwys trafodaeth ar weithdrefnau seneddol, trefn busnes a diwygio etholiadol, tra bod rhaglen ehangach yr ymweliad yn canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, gweithgynhyrchu a masnach, yn ogystal ag arloesi a deallusrwydd artiffisial. Cynhaliwyd yr ymweliad fel rhan o Fframwaith Rhyngwladol y Senedd, a chyda'r uchelgais o feithrin cysylltiadau dwyochrog â deddfwrfeydd yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.

Roedd y ddirprwyaeth yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Mae rhaglen lawn yr ymweliad ar gael yn Atodiad 1.

Y Ddirprwyaeth:

- David Rees AS, y Dirprwy Lywydd
- Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
- Carolyn Thomas AS, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
- Hannah Blythyn AS, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## Rhagair y Dirprwy Lywydd

Roedd yn bleser arwain yr ymweliad hwn â Stuttgart ac â Landtag Baden-Württemberg, ac rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau a gymerodd ran am eu cyfraniadau ac i'r holl unigolion y gwnaethom ni gwrdd â nhw ar hyd y ffordd am eu lletygarwch. Roedd yr ymweliad yn gyfle i'r Senedd ymgysylltu'n agosach ar lefel daleithiol yn yr Almaen, sef un o'n huchelgeisiau ar gyfer y Chweched Senedd hon sy'n gweithredu yn y dirwedd ar ôl Brexit. Fel rhan o'r croeso cynnes a gafwyd gan gydweithwyr yn y Landtag, cawsom gyfle i gymharu ein deddfwrfeydd, o'n hadeiladau seneddol modern i'r ardaloedd ôl-ddiwydiannol eang yr ydym yn eu cynrychioli, a chawsom gyfle hefyd i ddysgu am eu ffyrdd nhw o weithio wrth inni baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd. Cawsom lawer i gnoi cil arno yn sgil ein sgyrsiau â rhanddeiliaid yn y sectorau ynni adnewyddadwy, gweithgynhyrchu ac arloesi, ac rwy'n siŵr y bydd y sgyrsiau hyn yn cyfoethogi'n gwaith craffu fel Aelodau yn y dyfodol, ac yn dylanwadu ar y gwaith hwnnw. Rwy'n gobeithio y bydd ymweliad swyddogol cyntaf y Senedd â Stuttgart a Landtag Baden-Württemberg yn nodi dechrau perthynas barhaus â'r rhanbarth, ac rwy'n gobeithio hefyd y gallwn groesawu ein cyfeillion i'r Senedd yn y dyfodol agos.

David Rees AS

Dirprwy Lywydd

# Cynnwys


Rhagair y Dirprwy Lywydd ........ 2

**1. Cyfarfodydd ac ymweliadau ........ 3**

EnBW ........ 3

Ffatri Mercedes-Benz, Sindelfingen ........ 4

HLRS, Prifysgol Stuttgart ........ 6

**2. Ymgysylltu rhyngseneddol ........ 7**

**3. Atodiad 1 - Rhaglen yr ymweliad ........ 11**

# 1. Cyfarfodydd ac ymweliadau

## EnBW

**1.** Cyfarfu'r ddirprwyaeth ag EnBW, un o'r cwmnïau ynni mwyaf yn yr Almaen sy'n cyflenwi dros 5.5 miliwn o gwsmeriaid. Roedd y sgyrsiau yma'n canolbwyntio ar gamau'r cwmni tuag at ynni adnewyddadwy a'i Brosiect Mona, sef fferm wynt arfaethedig ar y môr ger arfordir gogledd Cymru.

**2.** Clywodd yr Aelodau am y camau gan EnBW i ehangu ei fusnes i gynnwys ynni adnewyddadwy, gan gynnwys rhoi'r gorau yn raddol i gynhyrchu pŵer drwy losgi glo a thrawsnewid ei orsafoedd pŵer glo yn orsafoedd pŵer nwy hydrogen. Wrth drafod amcanion y cwmni i fod yn niwtral o ran ei effaith ar yr hinsawdd erbyn 2035, soniodd y swyddogion am y pwysau gwleidyddol ac ariannol sy'n gysylltiedig â buddsoddi'n helaeth mewn ynni adnewyddadwy heddiw er mwyn sicrhau canlyniadau yfory.

**3.** Wrth drafod y prosiectau adnewyddadwy hyn, clywodd yr Aelodau am y modelau perchnogaeth gymunedol a ddefnyddir gan EnBW. Roedd y modelau hyn a'r buddion cymunedol cysylltiedig o ddiddordeb arbennig i'r Aelodau, a chytunodd EnBW i ddarparu nodyn manylach ar waith y cwmni yn y maes hwn.

**4.** Gwnaeth y swyddogion hefyd drafod strwythur perchnogaeth EnBW, lle mae cyfranddaliadau mwyafrifol yn eiddo i Dalaith Baden-Württemberg ac ar lefel ddinesig, sy'n golygu bod tua 96 y cant o'r cwmni o dan berchnogaeth gyhoeddus.

**5.** Hefyd, clywodd yr Aelodau am bortffolio e-symudedd EnBW, sy'n cynnwys dros 7,000 o bwyntiau gwefru ledled Ewrop. Trafododd yr Aelodau sut roedd hyn yn cymharu â'r ddarpariaeth ar gyfer gwefru cerbydau trydan yng Nghymru.

**6.** Buont hefyd yn siarad am brosiect Mona EnBW, sydd wedi'i leoli oddi ar arfordir gogledd Cymru. Trafodwyd manteision ffermydd gwynt sefydlog o gymharu â ffermydd wynt arnofiol ar y môr, yn ogystal â chysylltiad Mona â'r grid ym Modelwyddan. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch mynediad i'r grid a sut y bydd hyn yn effeithio ar fioamrywiaeth a chymunedau lleol.




Y ddirprwyaeth y tu allan i swyddfeydd EnBW yn Stuttgart gydag aelodau o uwch dîm rheoli'r cwmni.

## Ffatri Mercedes-Benz, Sindelfingen

**7.** Aeth yr Aelodau ar daith o amgylch ffatri Mercedes-Benz yn Sindelfingen, lle cynhyrchwyd dros 200,000 o geir y llynedd, gan gynnwys cerbydau trydan a modelau gwrth-fwledi. Mae safle'r ffatri yn ymestyn dros oddeutu 32 miliwn o droedfeddi sgwâr, ac mae gwasanaeth tân, gwasanaethau creche ac ysbyty wedi'u lleoli ar y safle ar gyfer y 35,000 o weithwyr sy'n gweithio yno.

**8.** Fel rhan o'r daith o amgylch y neuadd gydosod, gwelodd yr Aelodau bob model yn cael ei gydosod ar y llinell drwy oddeutu 43 o weithfannau. Caiff y ceir eu cydosod a'u cynhyrchu yn y drefn y byddant yn cael eu gwerthu, gyda sgriniau drwy'r neuadd yn dangos model a chyrchfan pob cerbyd wrth iddo symud drwy'r neuadd gydosod ar gludfelt.

**9.** Yn ystod y daith o amgylch y ffatri, sylwodd yr Aelodau ar y defnydd cynyddol o awtomeiddio yn y neuadd gydosod. Roedd cerbydau awtomataidd yn cludo deunyddiau i bob rhan o'r llinell gydosod, ac roedd yr offer llaw a

ddefnyddiwyd gan weithwyr ar y llinell yn cael eu pweru'n ddiwifr, gan reoli'r pwysau a'r amser a dreulir ar bob offeryn; yn y bôn, rôl y gweithiwr oedd codi a gosod yr offer ar y cerbyd, gyda'r broses awtomatig yn gwneud y gweddill.

**10.** Cododd y sylwadau hyn gwestiynau ynghylch awtomeiddio'r diwydiant gweithgynhyrchu yn y dyfodol ac effaith hyn ar weithwyr.

**11.** Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar y tariffau byd-eang arfaethedig ar gerbydau Mercedes. Yn ogystal â chydosod ceir, clywsant fod y ffatri hon hefyd yn cynhyrchu pob rhan o gerbydau eraill Mercedes, sydd wedyn yn cael eu hallforio i wahanol neuaddau cydosod ledled y byd. Trafodwyd sut y byddai hyn yn effeithio ar y tariffau ar allforion a osodir, gan gymharu'r tariffau ar ddarnau â'r tariffau ar gerbyd wedi'i gydosod.



Aelodau yn ffatri Mercedes-Benz yn Sindelfingen

## Canolfan Cyfrifiadura Perfformiad Uchel, Prifysgol Stuttgart

**12.** Cyfarfu’r Aelodau â staff Canolfan Cyfrifiadura Perfformiad Uchel (y Ganolfan) ym Mhrifysgol Stuttgart i ddysgu mwy am eu gwaith ym meysydd deallusrwydd artiffisial ac uwchgyfrifiadura.

**13.** Yma, bu’r Aelodau’n trafod â staff sut mae’r Ganolfan yn gweithio gyda chleientiaid ar draws pob sector, o’r sector cyhoeddus a busnesau bach a chanolig, i’r diwydiant modurol, i ddefnyddio uwchgyfrifiadura fel rhan o’u seilwaith i ddatrys problemau. Gall hyn gynnwys meysydd fel diogelwch ac i helpu gyda llifoedd mawr o ddata. Trafodwyd hefyd yr hyfforddiant y mae’r Ganolfan yn ei ddarparu yn y maes hwn, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig, a sut mae tirwedd uwchgyfrifiadura sy'n newid yn barhaus yn ei gwneud yn ofynnol iddynt esblygu ac uwchraddio systemau ac offer.

**14.** Clywodd yr Aelodau sut mae'r offer a'r system a ddefnyddir gan y Ganolfan fel arfer yn newid bob 5 mlynedd, ac esboniodd staff sut y maent yn gweld dirywiad yn y systemau ar ôl tua pedair blynedd. Mae prif Gyfrifiadur Pŵer Uchel presennol y Ganolfan, sef 'Hunter', yn system drosiannol cyn symud i'r uwchgyfrifiadur nesaf, 'Herder', yn 2027.

**15.** Roedd gan y ddirprwyaeth ddiddordeb mewn clywed am effaith amgylcheddol y gwaith hwn, a holwyd am yr effaith ar drosiant offer a'r galw mawr am bŵer sy’n gysylltiedig ag uwchgyfrifiadura. Trafodwyd bwriad y Ganolfan i ailddefnyddio’r gwres a gynhyrchir gan yr uwchgyfrifiadur a'r ganolfan gyfrifiadurol, a sut i sicrhau effeithlonrwydd offer.

**16.** Yna, aeth yr Aelodau ar daith o amgylch ystafell yr uwchgyfrifiadur ‘Hunter’ a'r 'Ogof AI', sef labordy efelychiad deallusrwydd artiffisial a ddefnyddir ar gyfer prosiectau efelychiad rhyngweithiol. Yma, dangosodd y staff dafluniad o ddinas Stuttgart a ddefnyddir i brofi nodweddion hygyrchedd mewn lleoliadau go iawn. Aeth yr Aelodau ar 'daith' o amgylch yr efelychiad o’r ddinas o’r awyr ac ar y ddaear.

## 2. Ymgysylltu rhyngseneddol

**17.** Croesawyd y ddirprwyaeth i Landtag Baden-Württemberg ar gyfer ymweliad swyddogol cyntaf y Senedd.

**18.** Tywyswyd yr Aelodau ar daith o amgylch yr adeilad seneddol modern a godwyd ym 1956, gan oedi i edrych ar weithiau celf a cherfluniau yn yr adeilad, yn ogystal â llyfr coffa'r Landtag sy'n coffau Aelodau Seneddol a gafodd eu herlid am eu gweithrediaeth wleidyddol rhwng 1933 a 1945.

**19.** Yna, ymgynullodd y ddirprwyaeth yn siambr drafod y Landtag gydag aelodau o Bwyllgor yr Amgylchedd, Hinsawdd a Diwydiant Ynni; y Pwyllgor Materion Economaidd, Llafur a Thwristiaeth; a'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd a Rhyngwladol.

**20.** Roedd hwn yn gyfle i drafod gweithdrefnau'r Cyfarfod Llawn a threfniadau busnes yn y Landtag. Cynhelir y Cyfarfod Llawn 2.5 diwrnod y mis, gyda phythefnos arall o'r mis wedi'i neilltuo i waith y pwyllgorau.

**21.** Clywodd yr Aelodau am y system bleidleisio yn y Cyfarfod Llawn, sy'n cynnwys pleidlais drwy godi dwylo, yn ogystal â'r confensiwn bod y Llywydd (Llefarydd) a'i dirprwyon yn bwrw pleidlais hefyd. Eglurodd swyddogion y newidiadau helaeth yn y siambr drafod yn dilyn pob etholiad i letya aelodau a charfanau newydd.

**22.** Dros ginio swyddogol, clywodd yr Aelodau am y newidiadau etholiadol sydd ar y gweill yn y Landtag cyn yr etholiad nesaf ym mis Mawrth 2026. Bydd hyn yn cynnwys symud i ffwrdd o'r system pleidlais sengl a gostwng yr oedran pleidleisio i 16. Yna, rhoddodd yr Aelodau o'r Senedd drosolwg byr o'r newidiadau etholiadol arfaethedig yng Nghymru.

**23.** Trafododd yr Aelodau'r cysylltiadau dwfn rhwng Cymru a Baden-Württemberg, gan gynnwys trefniadau gefeillio, yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt fel cymunedau ôl-ddiwydiannol, a'r ardaloedd helaeth y mae Aelodau'r ddwy ddeddfwrfa yn eu cynrychioli. Tynnodd Aelodau'r Landtag sylw hefyd at y tebygrwydd ffisegol rhwng y ddwy ddeddfwrfa, o ran yr adeiladau seneddol modern a'r adeiladau lluosog sy'n rhan o'u hystadau seneddol. Gwnaethant hefyd gymharu'r gwaith pwyllgor y mae'r Aelodau yn ei wneud fel rhan o'u dyletswyddau.

**24.** Yn olaf, bachodd y Dirprwy Lywydd ar y cyfle i wahodd cynrychiolwyr y Landtag ar ymweliad cyfatebol â'r Senedd pan fydd amser yn caniatáu.




Dirprwyaeth o'r Senedd yn Siambr y Landtag (O'r chwith i'r dde; Emil Sänze MdL, Llyr Gruffydd AS, Niklas Nüssle MdL, David Rees AS (Dirprwy Lywydd), Florian Wahl MdL, Hannah Blythyn AS, Carolyn Thomas AS, Dr. Reinhard Löffler MdL)

*Myfyriodd Carolyn Thomas AS:*

*"Roedd yr ymweliad â Stuttgart yn hynod ddiddorol, yn enwedig dysgu gan EnBW a seneddwyr Stuttgart am bontio i ynni adnewyddadwy a'r cyfle i ofyn cwestiynau am fudd cymunedol. Clywsom am brosiect ynni gwynt ar y môr Mona, sy'n cael ei ddwyn ymlaen drwy bartneriaeth rhwng EnBW a BP, ac sydd ar hyn o bryd yn y camau cynllunio terfynol. Mae'r prosiect hwn o ddiddordeb arbennig gan y bydd wedi'i leoli ym Mae Lerpwl, ger arfordir gogledd Cymru. Roeddwn am wybod pa fudd lleol all ddod yn sgil y prosiect a sut y bydd yn cyd-fynd â ffermydd gwynt a seilwaith presennol fel Dociau Mostyn, ffermydd gwynt ar y môr RWE a'r camau i hyfforddi prentisiaid tyrbinau gwynt yng Ngholeg Llandrillo.*

*Roedd hefyd yn ddiddorol ymweld â ffatri Mercedes i'w chymharu â safleoedd uwch-weithgynhyrchu yng ngogledd-ddwyrain Cymru fel Toyota ac Airbus, a dysgu am deallusrwydd artiffisial ac uwchgyfrifiadur HLRS gan arbenigwyr ym maes cyfrifiadura. Mae'n bwysig meithrin cysylltiadau rhwng ein dwy Senedd, ein diwydiannau a'n diwylliannau, gan fod gennym lawer i'w ddysgu oddi wrth ein gilydd. Roedd gan ein cyfeillion ddiddordeb mewn clywed am y defnydd o'r Gymraeg, a gwnaethom drafod maint y pwyllgorau a'r Seneddau, yn ogystal â diwygio etholiadol."*




Dirprwyaeth y Senedd yn edrych ar Lyfr Coffa y Senedd Daleithiol

*Dywedodd Llyr Gruffydd AS:*

*"Mae bob amser yn dda dysgu oddi wrth seneddau eraill a rhannu profiadau o ran sut i fod yn ddeddfwrfeydd gwell a chraffu ar lywodraeth yn fwy effeithiol. Amlygodd yr arferion gwahanol iawn a ddilynir gan Landtag Baden-Württemberg y cyfleoedd sydd ar gael inni newid rhai o'r ffyrdd yr ydym yn gweithio yn y Senedd. Mae hyn yn arbennig o wir am waith y pwyllgorau.*

*Roedd cryfhau cysylltiadau â diwydiant a'r byd academaidd hefyd yn ffocws allweddol i'r ymweliad. Roeddwn yn arbennig o falch o allu trafod datblygiadau ynni adnewyddadwy yng ngogledd Cymru yn uniongyrchol ag uwch weithredwyr Energy Baden-Württemberg. Roedd hefyd yn ddiddorol dysgu am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial ac uwchgyfrifiadura yng Nghanolfan Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Stuttgart. Roedd gweld y dechnoleg hon yn cael ei chymhwyso mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn fel profi hygyrchedd yn agoriad llygad go iawn.*

*Mae meithrin cysylltiadau â rhanbarthau a chenhedloedd eraill yn fuddiol i'r ddwy ochr a'r gobaith yw y bydd cysylltiadau rhwng Cymru a Baden-Württemberg yn cael eu cryfhau ymhellach drwy ymweliad gan Aelodau o'r Landtag â'r Senedd yn y dyfodol."*

# 3. Atodiad 1 - Rhaglen yr ymweliad

Dirprwyaeth y Senedd:

David Rees AS, Dirprwy Lywydd
Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Carolyn Thomas AS, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Hannah Blythyn AS, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Dydd Mawrth 25 Chwefror

| | |
|---|---|
| 09.00 | Cyfarfod ag EnBW |
| 11.30-12.30 | Taith Dywys - Staatsgalerie |
| 14.30 | Ymweliad safle - Ffatri Gweithgynhyrchu Mercedes, Sindelfingen |
| 16.15 | Ymadael â'r safle |

Dydd Mercher 26 Chwefror

| | |
|---|---|
| 09.00 | Cyfarfod yng Nghanolfan Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Prifysgol Stuttgart (y Ganolfan) |
| 11.00-14.00 | Rhaglen Swyddogol yn Landtag Baden-Württemberg |
| 11.00 | Taith dywys o adeilad y Senedd |
| 11.30 | Croeso gan Aelodau'r Landtag yn Siambr y Cyfarfod Llawn |
| 12.00 | Cinio ym mwyty Peplum gydag Aelodau'r Landtag |
| 14.00 | Diwedd y rhaglen swyddogol |